# YMATEB I'R RHAI A ALLAI ACHOSI PERYGL

F1 DYDDIAD

YR EGLWYS YNG NGHYMRU
2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd, CF10 5BT

# Tabl Cynnwys

Ymateb i'r rhai a allai achosi perygl ..... 2
Gweithredu ..... 2
Asesu Risg ..... 3
Pryd mae angen cynnal Asesiad Risg Diogelu? ..... 3
Cynllun Rheoli Risg ..... 4
Cytundebau Diogelu ..... 4
Pam mae Cynlluniau Rheoli Risg a Chytundebau Diogelu'n bwysig? ..... 4
Pwy ddylid ei gynnwys yn y trefniadau i roi'r asesiad risg, y cynllun rheoli risg a'r cytundeb diogelu ar waith? ..... 5
Cyfarfodydd Cytundeb Diogelu ..... 5
Cynnwys a Rheoli Cytundeb Diogelu ..... 6
Adolygu Asesiadau Risg Diogelu ..... 7
Hyd Cytundeb Diogelu ..... 8
Trosglwyddo Cynlluniau Rheoli Perygl Cytundebau Diogelu ..... 8
Beth os yw unigolyn yn symud i eglwys newydd? ..... 8
Cymorth i oroeswyr ..... 8
Cymorth i'r rhai sy'n peri risg a'u teuluoedd ..... 9

## Ymateb i'r rhai a allai achosi perygl

Mae'r eglwys Gristnogol yn unigryw gan ei bod yn agor ei drysau i bawb gan ddilyn neges ddigyfaddawd yr efengyl.[1]

Mae hyn yn golygu ei bod yn debygol bod pobl sydd ag euogfarnau troseddol am droseddau rhywiol neu dreisgar a mathau eraill o gamdriniaeth yn mynychu'r eglwys. Yn ogystal, efallai bod yna bobl eraill nad oes ganddynt euogfarnau neu nad ydynt wedi cael rhybudd ond bod yna resymau cadarn dros ystyried y gallent achosi perygl i eraill. Pan mae pobl yn achosi perygl i eraill, dylai eu safle yn y gynulleidfa gael ei asesu mewn ffordd ofalus a sensitif a dylid gwneud trefniadau i sicrhau bod y peryglon hyn yn cael eu lliniaru neu eu rheoli'n briodol. Yn yr amgylchiadau hyn, nid monitro ymddygiad yr unigolyn yw'r unig beth a wneir ond hefyd cynnig cymorth i arwain bywyd llawn a bodlon. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae gan yr Eglwys rôl bwysig o ran cyfrannu at atal camdriniaeth yn y dyfodol.

Dyma rai enghreifftiau o'r perygl y gallai unigolion ei achosi:

- troseddau rhywiol yn erbyn plant a/neu oedolion, yn cynnwys troseddau sy'n gysylltiedig â lluniau anweddus o blant
- troseddau treisgar yn erbyn plant a/neu oedolion, yn cynnwys troseddau sy'n gysylltiedig â thrais domestig yn erbyn menywod a thrais ar sail rhywedd
- camdriniaeth ariannol, fel targedu oedolion agored i niwed i gael mantais ariannol (e.e. gofyn am arian, derbyn 'rhoddion' sylweddol neu gynnig gwneud gwaith am grocbris)

Mae angen i'r Eglwys yng Nghymru sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ofalu am ac amddiffyn plant, oedolion mewn perygl a chymuned yr eglwys ehangach tra bod anghenion ysbrydol person sy'n destun pryder yn cael sylw dyledus er diogelwch a llesiant eraill.

## Gweithredu

Dylid hysbysu Swyddog Diogelu'r Dalaith cyn gynted ag sy'n ymarferol os oes unrhyw un o'r canlynol yn mynychu eglwys neu'n mynegi diddordeb mewn cymryd rhan mewn addoliad mewn eglwys:

- Unrhyw un sy'n datgelu euogfarn am drosedd rywiol neu dreisgar
- Unrhyw un sy'n cyfaddef i fod yn gamdriniwr yn cynnwys camdriniaeth na ddigwyddodd yn ddiweddar

[1] https://thirtyoneeight.org/get-help/resources/practice-guides-text/sex-offenders-in-the-church/

- Unrhyw un sy'n dweud ei fod yn destun ymchwiliad am achos lle'r amheuir camdriniaeth

Gall yr awdurdodau statudol hysbysu Swyddogion Diogelu'r Dalaith hefyd bod troseddwr a gafwyd yn euog yn cael ei ryddhau o'r carchar neu ei symud i ardal benodol a'i fod wedi mynegi dymuniad i fynychu eglwys. Yn y sefyllfaoedd hyn, bydd rheolwyr troseddwyr yn yr heddlu a/neu'r gwasanaeth prawf yn cynghori ar y lefel o berygl ac yn gweithio gyda Swyddog Diogelu'r Dalaith i drafod yr amgylchiadau lle byddai'n briodol i'r troseddwr fynychu eglwys. Bydd Swyddog Diogelu'r Dalaith yn trafod â'r periglor neu'r offeiriad cyfrifol yn y lle cyntaf ac yn cynnwys aelodau eraill o'r eglwys fel y bo'n briodol. Bydd gofal arbennig yn cael ei gymryd mewn sefyllfa lle mae rhywun sydd wedi dioddef neu oroesi camdriniaeth gan y troseddwr yn mynychu'r un eglwys, ac mewn achos o'r fath efallai y bydd disgwyl i'r troseddwr addoli yn rhywle arall.

Dylid cofio nad yw hi'n bosibl atal plwyfolyn rhag mynychu gwasanaeth dwyfol, oni bai bod hyn yn amod o orchymyn llys neu'n rhan o amodau trwydded wrth ryddhau o garchar. Fodd bynnag, mae'n bosibl i wardeiniaid eglwysi gyfeirio person i eistedd mewn lle penodol, cyflwyno mesurau i oruchwylio eu cyfranogiad yn y gwasanaeth a gofyn i'r person adael os yw'n achosi trafferth, ac os yw hynny'n digwydd efallai y gofynnir i'r heddlu ddarparu cymorth. Mae'n bosibl gwrthod mynediad i weithgareddau eraill yr eglwys, yn cynnwys lluniaeth ar ôl gwasanaeth, digwyddiadau cymdeithasol yn yr eglwys, cyngherddau a bod yn aelod o gôr neu gymryd rhan mewn gweithgareddau canu clychau.

Pan fydd unrhyw un sydd wedi'i nodi fel person a allai fod yn berygl wedi mynegi dymuniad i fynychu gwasanaeth eglwys neu gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau eraill yn yr eglwys, mae fel arfer yn bosibl derbyn y cais yn dilyn asesiad risg a ffurfio cynllun rheoli risg ac yn aml cytundeb diogelu.

## Asesu Risg

Bydd Tîm Diogelu'r Dalaith yn cynnal asesiad risg unwaith maent yn ymwybodol o'r ffaith y gallai rhywun sy'n mynychu, neu sy'n dymuno mynychu gweithgareddau'r Eglwys yng Nghymru, achosi perygl i eraill. Bydd yr asesiad risg yn cynnwys mewnbwn gan yr Ardal Weinidogaeth, Asiantaethau Statudol cysylltiedig (yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf fel arfer), y person sy'n destun pryder, a'r goroeswr pan fo hynny'n briodol.

Bydd yr asesiad risg yn penderfynu a oes angen cynllun rheoli risg a chytundeb diogelu.

Caiff yr asesiad risg ei adolygu'n flynyddol, neu pan fo newid sylweddol mewn amgylchiadau.

## Pryd mae angen cynnal Asesiad Risg Diogelu?

Bydd yr angen am gytundeb diogelu'n cael ei ystyried yn y sefyllfaoedd canlynol:

- pan fydd rhywun wedi cael euogfarn neu rybudd am droseddau rhywiol neu dreisgar a/neu wedi'i wahardd rhag gweithio gyda phlant neu oedolion gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu Disclosure Scotland
- pan mae rhywun yn destun honiad o ymddygiad niweidiol neu gamdriniol sy'n rhan o ymchwiliad gan yr heddlu neu'n destun achos yn y llys troseddol neu sifil
- pan mae rhywun wedi'i wahardd o'i rôl arferol fel gweithiwr cyflogedig neu wirfoddolwr oherwydd pryderon am ei ymddygiad
- pan allai rhywun fod yn berygl i aelodau eraill yr eglwys yn sgil ei ymddygiad, waeth beth fo'i statws troseddol, yn cynnwys:
- pan mae'r Eglwys yng Nghymru wedi derbyn gwybodaeth gan yr awdurdodau statudol yn nodi pryderon am ymddygiad unigolyn
- pan mae honiad o gamdriniaeth wedi'i ymchwilio ond nad yw'r mater wedi mynd i'r llys, neu fod y person wedi'i gael yn ddieuog ond yn dal i gael ei ystyried yn berygl
- pan mae cwyn wedi'i dderbyn yn honni ymddygiad amhriodol nad yw'n bodloni'r trothwy ar gyfer erlyniad troseddol
- bod yna bryderon wedi bod am ymddygiad camdriniol honedig person tuag at bartner cyfredol neu flaenorol

## Cynllun Rheoli Risg

Pan fydd yr asesiad risg yn nodi risg parhaus, bydd angen llunio cynllun rheoli risg. Bydd y cynllun rheoli risg yn cynnwys unrhyw gamau y bydd yr Eglwys yng Nghymru yn eu cymryd i leihau risg. Mae'r cynllun rheoli risg yn cael ei lunio fel dogfen ysgrifenedig y cytunir arni ac sy'n cael ei llofnodi gan yr holl bartïon sy'n rhan o reoli'r risg.

Mae Ffurflen S yn dempled ar gyfer cynllun rheoli risg.

## Cytundebau Diogelu

Pan ofynnir i'r unigolyn sy'n destun pryder gymryd camau gweithredu neu gadw at ffiniau neu geisiadau penodol fel rhan o'r cynllun rheoli risg, bydd angen llunio cytundeb diogelu.

Cytundeb ysgrifenedig a lofnodir rhwng unigolyn a'r Eglwys yng Nghymru yw cytundeb diogelu. Mae'n nodi'r amodau lle y gall yr unigolyn fynychu gwasanaethau eglwys a chymryd rhan ym mywyd yr eglwys.

Cytundeb enghreifftiol troseddwr hysbys yw Ffurflen L.

## Pam mae Cynlluniau Rheoli Risg a Chytundebau Diogelu'n bwysig?

Mae cynlluniau rheoli risg a chytundebau diogelu yn helpu i ddiogelu pawb sy'n rhan o fywyd yr eglwys, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed. Mae cytundeb hefyd yn helpu'r rhai sy'n gorfod ei ddilyn drwy sicrhau bod ganddynt gyd-berthnasoedd cryf, cefnogol ac atebol yn yr

eglwys. Mae'r cyd-berthnasoedd atebol hynny yn helpu i leihau'r risg o aildroseddu neu ymddwyn yn amhriodol.

Mae'n bwysig bod sail cyfranogiad person sy'n destun pryder mewn eglwys yn cael ei ddeall a'i gofnodi'n glir er mwyn amddiffyn cymuned yr eglwys, goroeswyr ac yn arbennig plant ac oedolion mewn perygl. Fodd bynnag, mae'r cynllun rheoli risg a'r cytundeb diogelu hefyd yn bwysig er mwyn amddiffyn y person sy'n destun pryder, na ddylai gael ei roi mewn sefyllfaoedd lle gallai fod yn agored i gyhuddiadau neu gael cyfle i aildroseddu.

## Pwy ddylid ei gynnwys yn y trefniadau i roi'r asesiad risg, y cynllun rheoli risg a'r cytundeb diogelu ar waith?

Mae'r holl asesiadau risg diogelu a'r trefniadau rheoli risg cysylltiedig yn cael eu rheoli gan Swyddog Diogelu'r Dalaith, a fydd yn cynnwys grŵp bach o bobl i oruchwylio'r contract a chefnogi'r person yn ei ymwneud â bywyd yr eglwys. Mae asesiadau risg diogelu, cynlluniau diogelu a chytundebau yn gyfrinachol iawn ac ni ddylid rhannu gwybodaeth y tu allan i'r grŵp hwn.

Gallai'r grŵp gynnwys:

- y periglor neu'r offeiriad cyfrifol
- wardeiniaid eglwysi
- swyddog diogelu'r ardal weinidogaeth a/neu swyddog diogelu'r eglwys
- yr heddlu a/neu reolwyr troseddwyr y gwasanaeth prawf
- gwasanaethau cymdeithasol

Mae llofnodwyr y cynllun a'r cytundeb yn gyfrifol am weithredu a monitro telerau'r cynllun a'r cytundeb a sicrhau bod y person yn cadw at yr amodau a amlinellwyd ynddynt. Mae'n rhaid rhoi gwybod am unrhyw achos o dorri'r amodau i Swyddog Diogelu'r Dalaith cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

## Cyfarfodydd Cytundeb Diogelu

Bydd Swyddog Diogelu'r Dalaith yn cydgysylltu cyfarfod i sefydlu'r cytundeb diogelu. Bydd y sawl sy'n destun y cytundeb a'r llofnodwyr allweddol yn mynychu'r cyfarfod i drafod y pryderon a chytuno ar delerau'r cytundeb. Bydd y cytundeb yn cael ei lofnodi a'i ddyddio, a dyddiad adolygu'n cael ei gytuno a'i gofnodi ar y cytundeb.

Os yw'r sawl sy'n destun y cytundeb yn gwrthod ei lofnodi mae'r eglwys yn cael ei gadael gyda pherygl heb ei reoli. Mae'n hanfodol bod yr Eglwys yng Nghymru yn lle mor ddiogel â phosibl er lles pawb sy'n rhan o fywyd yr eglwys. O ganlyniad, dylid gofyn i'r unigolyn beidio â mynychu'r eglwys nes bod cytundeb llofnodedig ar waith. Bydd Swyddog Diogelu'r Dalaith yn trafod â rheolwyr troseddwyr yn yr heddlu a'r gwasanaeth prawf, rheolwyr diogelu yn y

gwasanaethau cymdeithasol a gydag asiantaethau perthnasol eraill yn ôl y gofyn er mwyn dod o hyd i ateb.

## Cynnwys a Rheoli Cytundeb Diogelu

Gall Cytundeb Diogelu nodweddiadol gynnwys yr amodau canlynol y mae disgwyl i'r sawl sy'n destun y cytundeb gydymffurfio â nhw:

- mynychu'r eglwys ddynodedig yn unig ar gyfer gwasanaethau neu gyfarfodydd penodol
- eistedd mewn man penodol a nodwyd yn yr eglwys, ar wahân i blant a/neu oedolion mewn perygl
- aros draw o rannau o'r adeilad sy'n cael eu defnyddio gan blant a/neu oedolion mewn perygl
- mynychu grŵp tŷ dim ond pan nad oes plant nac oedolion mewn perygl yn bresennol
- gwrthod lletygarwch neu weithgareddau cymdeithasol pan fo plant neu oedolion mewn perygl yn bresennol
- peidio â bod ar ben ei hun o gwbl gyda phlant neu oedolion mewn perygl ar safle'r eglwys
- peidio â chymryd rhan o gwbl mewn gweithgareddau grŵp gyda phlant neu oedolion mewn perygl
- peidio â chymryd rôl na swydd yn yr eglwys sy'n rhoi statws neu awdurdod i'r sawl sy'n destun y cytundeb neu a allai awgrymu i eraill y gellir ymddiried yn a dibynnu ar y person

Dylai cytundebau hefyd cynnwys darpariaeth ar gyfer gofal bugeiliol y tu allan i'r gwasanaethau y cytunwyd arnynt.

Mae'n rhaid hysbysu testun y cytundeb o'r dechrau y bydd gwybodaeth berthnasol am ymddygiad troseddol a risg yn cael ei rhannu â phobl benodol yn yr eglwys a fydd angen bod yn ymwybodol o amgylchiadau perthnasol er mwyn diogelu'r plant a'r oedolion mewn perygl sydd dan eu gofal. Mewn rhai sefyllfaoedd, pan fo achos clir o wrthdaro buddiannau, efallai y gall y person sy'n destun pryder ofyn am beidio â datgelu gwybodaeth benodol i berson penodol. Gall hyn gynnwys pan fo perthynas yn bodoli rhwng y person sy'n destun pryder a llofnodwr posibl y cytundeb. Bydd Swyddog Diogelu'r Dalaith yn ystyried ceisiadau o'r fath fesul achos ac yn eu derbyn lle bo'n briodol.

Mae'n bwysig iawn nad oes unrhyw berson sydd ag euogfarn neu rybudd am drosedd rywiol neu dreisgar yn gwneud unrhyw waith gyda phlant neu oedolion mewn perygl neu'n cael ei benodi i unrhyw swydd neu gyfrifoldeb neu'n cael ei gynnwys o dan unrhyw gontract yng nghyd-destun yr Eglwys yng Nghymru heb asesiad risg trylwyr. Dylai troseddwyr o'r fath gael eu hatal rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau eglwys penodol eraill hefyd heb drefniadau arbennig sy'n cael eu goruchwylio gan Swyddog Diogelu'r Dalaith (e.e. côr a gweithgareddau canu clychau).

Mae gan wardeiniaid eglwysi rôl arwyddocaol yn y gwaith o weithredu a monitro cytundebau diogelu. Gallant gyfeirio plwyfolion i ble ddylent eistedd ac mae ganddynt ddyletswydd i gadw trefn mewn gwasanaeth dwyfol. Os oes angen, gall wardeiniaid eglwysi anfon unrhyw berson sy'n creu trafferth allan, er y dylid defnyddio grym o'r fath yn ofalus. Os rhagwelir 'trafferth' neu os oes rhywun yn gwrthod gadael yr eglwys, dylid hysbysu'r heddlu a gofyn iddynt ddod draw.

Dylid rhoi gwybod yn syth i Swyddog Diogelu'r Dalaith am unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio neu dorri'r cytundeb diogelu. Bydd y Swyddog yn rhoi sylw iddynt fesul achos, mewn ymgynghoriad â rheolwyr troseddwyr yr heddlu a/neu'r gwasanaeth prawf a phartneriaid perthnasol eraill. Gall tramgwydd sylweddol arwain at orfod diwygio'r cytundeb neu ofyn i'r unigolyn beidio â mynychu'r eglwys.

Mae cynnwys cytundeb diogelu'n gyfrinachol iawn, ac ni ddylid rhannu gwybodaeth sydd wedi'i gynnwys ynddo ag unrhyw un nad yw'n llofnodwr y cytundeb heb ganiatâd penodol Swyddog Diogelu'r Dalaith.

## Adolygu Asesiadau Risg Diogelu

Dylai'r holl asesiadau risg diogelu gael eu hadolygu bob deuddeg mis gan Swyddog Diogelu'r Dalaith. Bydd yr asesiad risg hefyd yn cael ei adolygu'n ffurfiol yn dilyn newid mewn amgylchiadau, a allai gynnwys:

- newid clerig
- diffyg cydymffurfio â'r cytundeb cyfredol
- amrywiad yn statws MAPPA[2] y troseddwr
- tystiolaeth o ymddygiad troseddu pellach
- nodi ffactorau risg newydd

Pan na fydd unrhyw bryderon ac nad oes angen gwneud newidiadau sylweddol i'r cynllun rheoli perygl a'r cytundeb diogelu, efallai na fydd angen cynnal cyfarfod ffurfiol. Mewn ymgynghoriad â'r heddlu a/neu'r gwasanaeth prawf, y periglor/offeiriad cyfrifol a phobl arwyddocaol eraill gellid cytuno bod y cynllun a'r cytundeb cyfredol yn aros fel ag y maent. Bydd testun y cynllun a'r cytundeb yn cael cyfle i gymryd rhan yn y broses adolygu. Bydd y gwaith hwn yn cael ei arwain gan Swyddog Diogelu'r Dalaith.

Ni ddylai unrhyw gynllun na chytundeb cyfredol fynd mwy na thair blynedd heb gael cyfarfod adolygu ffurfiol, dan arweiniad Swyddog Diogelu'r Dalaith.

[2] Mae Cytundebau Diogelu'r Cyhoedd aml-asiantaeth yn sicrhau bod modd rheoli troseddwyr treisgar a rhywiol.

## Hyd Cytundeb Diogelu

Bydd cytundebau diogelu yn cynnwys dyddiad gorffen sy'n destun adolygiad. Bydd pobl ag euogfarnau ac sy'n destun cytundeb diogelu yn cael gwybod y bydd y cytundeb mewn grym am gyfnod o amser nad yw'n llai na hyd unrhyw amodau trwydded a osodwyd gan y llys, gorchymyn, cofrestriad, gofyniad hysbysu neu gyfyngiad arall, yn cynnwys lle gall hyn fod yn gyfnod amhenodol. Pan fydd cytundeb yn cael ei lunio heb euogfarn, bydd hyd y cytundeb yn cael ei benderfynu pan fydd y cytundeb yn dechrau. Mewn rhai achosion, bydd cytundeb yn fesur dros dro wrth ddisgwyl am ganlyniad ymchwiliad neu erlyniad ac yn dod i ben yn dilyn adolygiad os nodir nad yw'r unigolyn yn achosi perygl. Fel arall, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol, pan mae yna dystiolaeth annibynnol glir ynghylch lefel y perygl, y rhoddir ystyriaeth i ddod â'r cytundeb i ben cyn y dyddiad y cytunwyd arno. Fodd bynnag, mae gan destun y cytundeb hawl i gyflwyno cais i Swyddog Diogelu'r Dalaith i adolygu'r cytundeb.

Gall unrhyw un sy'n destun cytundeb diogelu wneud cais am adolygu'r cytundeb. Gall y person ofyn i Swyddog Diogelu'r Dalaith benderfynu dod â'r cytundeb i ben neu fod amodau penodol yn y cytundeb yn cael eu llacio neu eu dileu. Bydd Swyddog Diogelu'r Dalaith yn ystyried y cais mewn ymgynghoriad â llofnodwyr y cytundeb ac ar gyngor yr awdurdodau statudol a phartneriaid perthnasol eraill.

## Trosglwyddo Cynlluniau Rheoli Perygl Cytundebau Diogelu

Pan fydd periglor neu offeiriad cyfrifol yn gadael ardal weinidogaeth neu genhadaeth lle mae yna gytundeb diogelu neu gynllun rheoli perygl ar waith, mae'n bwysig bod gwybodaeth am y cytundeb/cynllun yn cael ei throsglwyddo i'r periglor/offeiriad cyfrifol neu i'r person sy'n gyfrifol yn y cyfamser. Mae angen i'r trosglwyddiad hwn ddigwydd cyn gynted ag y bydd y periglor neu'r offeiriad cyfrifol yn ei swydd. Mae'r clerig sy'n gadael ei swydd yn gyfrifol am hysbysu Swyddog Diogelu perthnasol y Dalaith am y newid i staff.

Yn yr un modd, dylid rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i lofnodwyr y cynllun/cytundeb i Swyddog Diogelu'r Dalaith cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

## Beth os yw unigolyn yn symud i eglwys newydd?

Dylid hysbysu Swyddog Diogelu'r Dalaith os yw person sy'n destun cytundeb diogelu neu gynllun rheoli perygl yn symud i eglwys newydd yn yr Eglwys yng Nghymru neu i enwad arall. Mae llofnodwyr y cynllun/cytundeb yn gyfrifol am sicrhau bod yr wybodaeth am newid eglwys yn cael ei throsglwyddo cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Bydd Swyddog Diogelu'r Dalaith yn trafod â'r awdurdodau statudol i ystyried pa wybodaeth y dylid ei rhannu â'r eglwys newydd.

## Cymorth i oroeswyr

Gall cymuned yr eglwys gynnwys dioddefwyr a goroeswyr. Mewn rhai achosion, fe fydd pobl sydd wedi cael eu niweidio neu eu cam-drin gan berson sy'n destun cytundeb diogelu yn yr un eglwys. Mewn

achosion eraill, fe fydd rhywun sydd wedi dioddef neu oroesi camdriniaeth gan gyflawnwyr eraill, yn cynnwys camdriniaeth a ddigwyddodd cryn amser ynghynt. Efallai na fydd aelodau eraill yr eglwys yn gwybod pwy ydynt gan nad ydynt wedi gallu dweud eu stori.

Mae'r ffordd y mae'r eglwys yn ymateb i droseddwyr yn effeithio ar sut mae dioddefwyr a goroeswyr yn teimlo am eu lle yn yr eglwys. Gall dioddefwyr a goroeswyr mewn cynulleidfaoedd lle mae troseddwr yn cael cymryd rhan yn llawn ym mywyd cymuned yr eglwys deimlo nad yw'r eglwys wedi gwrando ar eu poen na'i chydnabod ac efallai y bydd yn anodd iawn iddynt barhau i fod yn aelod o'r un gynulleidfa a hyd yn oed yn anoddach bod disgwyl iddynt gymryd rhan yn yr un addoliad neu weithgareddau. Gall rhai dioddefwyr a goroeswyr deimlo bod rhaid iddynt adael y gynulleidfa neu hyd yn oed roi gorau i'w ffydd.

Er bod gofal bugeiliol i droseddwyr yn rhywbeth y mae'n rhaid i Gristnogion roi sylw iddo, mae gofal bugeiliol i ddioddefwyr a goroeswyr yn aml wedi cael ei anwybyddu neu ei esgeuluso ac mae llawer o ddioddefwyr a goroeswyr wedi teimlo'n unig a bod yr eglwys wedi eu hanghofio. Os yw troseddu'n cael ei drin yn ysgafn neu os yw troseddwr yn cael ei adfer yn sydyn i swyddi o ymddiriedaeth ac awdurdod, gall hyn roi'r argraff ei fod yn dibrisio arwyddocâd profiad dioddefwr neu oroeswr.

Dylai eglwysi wneud popeth a allant i gynnig gofal a chymorth bugeiliol effeithiol i ddioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth ac i ddangos bod troseddwyr hysbys yn cael eu rheoli i leihau'r perygl o unrhyw niwed pellach.

Gellir cyfeirio neu atgyfeirio dioddefwyr neu oroeswyr at Safe Spaces [3] neu New Pathways[4] am gymorth. Mae manylion cymorth arall sydd ar gael i oroeswyr wedi'u cynnwys yn nogfen Canllawiau Ymateb yn Dda i Oroeswyr ac ar adran Cymorth i Oroeswyr y wefan.

Dylid hysbysu Swyddog Diogelu'r Dalaith os oes rhywun yn datgelu ei fod yn ddioddefwr neu'n oroeswr camdriniaeth ac am drafod ei brofiadau.

## Cymorth i'r rhai sy'n peri risg a'u teuluoedd

Mae'n bwysig bod cymorth bugeiliol yn cael ei gynnig i'r rhai sy'n destun asesiad risg a chytundeb diogelu. Bydd y cytundeb diogelu yn enwi'r unigolyn a fydd yn darparu'r cymorth bugeiliol ond mae'n ddefnyddiol os gellir trefnu hyn cyn gynted ag sy'n bosibl, tra mae'r asesiad risg yn cael ei gynnal. Fel rheol, bydd y cymorth hwn yn cael ei ddarparu gan y clerig lleol, ond efallai y bydd rhywun arall yn cael ei nodi fel y person mwyaf priodol.

Weithiau, bydd angen cymorth a chefnogaeth mwy arbenigol neu efallai y bydd yr unigolyn yn dymuno cael cymorth o'r tu allan i'r eglwys. Efallai y bydd y rhai sy'n gysylltiedig â'r person sy'n destun asesiad risg, e.e. partner a phlant, angen cymorth a chefnogaeth arbenigol hefyd, y tu hwnt i'r hyn y gall yr eglwys ei ddarparu. Gweler rhestr o opsiynau cymorth posibl y gellir cyfeirio pobl atynt isod.

### Cymorth i Ffrindiau a Pherthnasau nad ydynt yn troseddu

**Talking Forward** – ariannu cymorth gan gymheiriaid i unrhyw un mewn sefyllfa lle mae oedolyn yn y teulu wedi'i ymchwilio am drosedd rywiol ar-lein. www.talkingforward.co.uk

[3] https://www.victimsupport.org.uk/more-us/why-choose-us/specialist-services/safe-spaces/
[4] http://www.newpathways.org.uk/

**The Lucy Faithfull Foundation** – yn gweithio gydag unrhyw un sydd wedi'i effeithio gan droseddu rhywiol. Mae Stop It Now! Friends and Family Forum y sefydliad yn ofod ar-lein i aelodau teulu a ffrindiau pobl sydd wedi bod yn edrych ar ddelweddau rhywiol o blant neu'n cyfathrebu'n rhywiol â phlentyn ar-lein. Yn ogystal â fforwm cymheiriaid ar-lein mae yna linell gymorth Stop It Now a chyfleuster sgwrsio diogel ar-lein. https://get-help.stopitnow.org.uk
Mae The Lucy Faithfull Foundation hefyd yn darparu 'The Inform programme' sy'n gwrs i bartneriaid, perthnasau a ffrindiau unrhyw un sydd wedi bod: yn edrych ar ddelweddau rhywiol o blant ar-lein neu'n cael sgyrsiau rhywiol â phlant ar-lein.
www.lucyfaithfull.org.uk/inform.htm

**StopSO** – mae gan StopSO grŵp cymorth i gymheiriaid ar gyfer y rhai sydd ag aelod o'r teulu'n cael ei amau neu'n euog o gam-drin rhywiol. StopSO Support for Families Online Group » StopSO UK

**Cyngor ar Bopeth** – cyngor ymarferol ar gael ar mrywiaeth o faterion drwy fynd i https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/

**Y Samariaid** – maent yn darparu cymorth a chyngor cyfrinachol 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i bawb. Gallwch ffonio am ddim ar 116 123 neu fynd i www.samaritans.org i gael rhagor o wybodaeth.

## Cymorth i Blant

**Heard and Seen** – cymorth i blant a theuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan riant yn y carchar. www.childrenheardandseen.co.uk

**Childline.** Gall plant ffonio Childline ar 0800 111 i gael cyngor cyfrinachol am ddim, neu fynd i www.childline.org.uk

## Cymorth i rywun sy'n destun Asesiad Risg a/neu Gytundeb Diogelu

**StopSO UK** – sefydliad triniaeth arbenigol i Gyflawnwyr a Goroeswyr Troseddau Rhywiol https://stopso.org.uk. Gallant ddarparu cwnsela arbenigol i'r rhai sydd wedi troseddu neu sydd wedi'u nodi fel rhai sydd mewn perygl o droseddu. Mae ganddynt wasanaethau therapiwtig i oroeswyr camdriniaeth rywiol hefyd.

**The Lucy Faithfull Foundation** – mae eu Rhaglenni Inform Plus ac Engage Plus yn cynnig cymorth i bobl sydd wedi'u harestio, wedi cael rhybudd neu wedi'u cael yn euog o droseddau ar y rhyngrwyd sy'n cynnwys delweddau rhywiol o blant neu gyfathrebu'n rhywiol â phlant, i'w helpu i stopio eu hymddygiad. www.lucyfaithfull.org.uk/helpto-stop-offending-online.htm
Mae Lucy Faithfull hefyd yn darparu llinell gymorth gyfrinachol am ddim i'r rhai sy'n pryderu am eu teimladau rhywiol am blant a phobl ifanc Get support website for people worried about offline offending | The Lucy Faithfull Foundation

**Safer Lives** – cymorth arbenigol a chyfrinachol i bobl sy'n rhan o ymchwiliad gan yr heddlu am droseddau rhywiol ar-lein. www.saferlives.com